TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# City & Guilds Tystysgrif mewn Trin Gwallt (Oedolion) Lefel 1/2



**Yn gryno**Mae'r cwrs hwn ar gyfer pobl sydd â diddordeb gyrfa mewn trin gwallt ac mae'n ddelfrydol os nad oes gennych lawer o brofiad neu sgiliau, os o gwbl. Bydd y cwrs hwn hefyd yn datblygu eich sgiliau gwasanaeth cwsmeriaid wrth ddelio â chleientiaid. Mae'r cwrs a'r amserlen wedi'u cynllunio ar gyfer oedolion ac yn arbennig ar gyfer y rhai sydd â phlant yn yr ysgol.

**Dyma'r cwrs i chi os...**

...wrth eich bodd â thrin gwallt a harddwch

...rydych eisiau newid eich gyrfa

...rydych yn hoff o dorri gwallt eich ffrindiau a theulu ac eisiau ennill cymhwyster.

**Beth fyddaf yn ei wneud?**

Byddwch yn dysgu amrywiaeth o sgiliau trin gwallt, yn cynnwys:

Ymgynghoriadau â chleient
Sgiliau derbynfa
Golchi gwalltiau
Chwythsychu
Torri sylfaenol
Y grefft o addurno gwallt
Gwallt i fyny
Lliwio gwallt
Creu steil gwallt cyflawn gan ddefnyddio lliw

A byddwch yn dysgu'r uchod drwy:

Ddosbarthiadau theori
Gweithdai ymarferol
Amgylcheddau salon go iawn yn y coleg
Sesiynau masnachol
Arddangosiadau
Ymarferion chwarae rôl
Gwaith grwp
Gweithgareddau cyfoethogi megis teithiau, ymweliadau, siaradwyr gwadd a sgyrsiau diwydiannol

Byddwch yn cael eich asesu drwy asesiadau ymarferol, aseiniadau, prosiectau a phrofion amlddewis ar-lein yn ymdrin â'ch gwybodaeth sylfaenol. Unwaith y byddwch wedi'i gwblhau, byddwch yn cyflawni:

NVQ Lefel 1 mewn Trin Gwallt ac Unedau L2 mewn Trin Gwallt
Cymwysterau ategol priodol er mwyn ehangu eich set sgiliau a bodloni anghenion y diwydiant

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

I ddilyn y cwrs byddwch angen o leiaf 4 TGAU gradd G neu uwch yn cynnwys Mathemateg/Rhifedd a Chymraeg Iaith Gyntaf/Saesneg neu gymhwyster Lefel Mynediad priodol. Bydd ymgeiswyr heb yr isafswm TGAU yn cael eu hystyried ar sail profiad blaenorol neu gymwysterau eraill.

Bydd angen i chi fod yn hunan-ysgogol, yn weithgar, yn gyfeillgar a bod â lefel uchel o

gyflwyniad personol.

Mae presenoldeb a phrydlondeb ar gyfer pob sesiwn yn un o brif ofynion y cwrs hwn.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Unwaith byddwch wedi cwblhau'r cwrs, gallwch symud ymlaen at NVQ Lefel 2 mewn Trin Gwallt neu gyflogaeth ar lefel prentis dan hyfforddiant.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Cod gwisg:

Rhaid gwisgo tiwnig gyda throwsus ac esgidiau duon mewn salonau
Gwallt wedi'i glymu'n ôl yn daclus oddi wrth yr wyneb
Ni ddylid gwisgo estyniadau ewinedd na farnais ewinedd
Dim gemwaith na thlysau, cewch wisgo modrwy briodas yn unig yn y salon

Fel amod o'ch lle ar y cwrs hwn, bydd disgwyl i chi brynu'r offer priodol oddi wrth ein cyflenwr cymeradwy. Y gost am hyn yw tua £192, yn amodol ar adolygiad/cynnydd pris chwyddiant.

I adlewyrchu disgwyliadau'r diwydiant, bydd gofyn i chi wisgo gwisg salon Coleg Gwent y gellir ei harchebu oddi wrth ein cyflenwr cymeradwy. Gellir cael manylion ar sut i archebu eich gwisg salon am ddim, a setiau ychwanegol, yn ogystal ag opsiynau talu'r cyflenwyr, oddi wrth eich Pennaeth Ysgol, Darlithydd neu Dechnegydd.  Y pris ar gyfer 2024/2025 yw £45, yn amodol ar adolygiad/cynnydd pris chwyddiant.

Gall fod costau ychwanegol yn ystod y flwyddyn ar gyfer ymweliadau addysgol.

Mae'r holl gostau yn cael eu hadolygu a gallent newid.


studentrecruitment@coleggwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)